COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 A GYNHALIWYD YN REMOTELY - VIA MICROSOFT TEAMS DYDD MERCHER, 25 MAI 2022, AM 10:30

Presennol

Y Cynghorydd M Lewis – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | A R Berrow | S J Bletsoe | RJ Collins |
| H Griffiths | RM James | MJ Kearn | J E Pratt |
| R J Smith | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

I Williams a/ac R Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Katia Daw | Cyfreithiwr |
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Kirsty Evans | Uwch Swyddog Trwyddedu |
| Andrew Rees | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

2. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 a gynhaliwyd ar 09 Tachwedd 2021 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

3. DEDDF TRWYDDEDU 2003 A DEDDF GAMBLO 2005 DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU

Cyflwynodd y Swyddog Polisi Trwyddedu adroddiad ar y trefniadau arfaethedig ar gyfer awdurdodi swyddogion o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005 a chadarnhaodd drefniadau ar gyfer ffurfio is-bwyllgorau yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor 2022.

Esboniodd y Swyddog Polisi Trwyddedu, er mwyn cyflawni perfformiad effeithiol, y bwriad oedd dirprwyo'r cyfrifoldeb dros awdurdodi swyddogion i weinyddu gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005, i'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol ac i'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol i gychwyn achosion o dan y Deddfau hynny. Cynigiwyd hefyd, lle bo hynny'n briodol, y byddai'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio, y Rheolwr Tîm Trwyddedu (Pen-y-bont ar Ogwr a'r Fro), yr Uwch Swyddog Trwyddedu (Technegol), yr Uwch Swyddog Gorfodi Trwyddedu a'r Swyddog Polisi Trwyddedu yn cael eu hawdurdodi i gydnabod a chyhoeddi Hysbysiadau sy'n ymwneud â Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro; i roi, gwrthod, atal trwyddedau, cofrestriadau, tystysgrifau, hawlenni a hysbysiadau, i weithredu'r darpariaethau perthnasol mewn perthynas â throseddau, adolygiadau neu ofynion eraill; yn unol ag unrhyw un o'r rheolau, rheoliadau a/neu Orchmynion a wnaed o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005 (fel y'i diwygiwyd). Dim ond pan fyddent ar gael i Gyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr yn unol ag adran 113 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 y byddai'r awdurdodiad mewn perthynas â'r swyddogion trwyddedu yn dod i rym. Gofynnwyd i'r Pwyllgor hefyd

gymeradwyo'r trefniant presennol ynghylch ffurfio Is-bwyllgorau pellach sy'n cynnwys tri Aelod o Bwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 i bennu ceisiadau o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005. Cynigiwyd y dylai Is-bwyllgorau Deddf Trwyddedu 2003 gael eu cadeirio gan Gadeirydd neu Is-gadeirydd Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 lle bo hynny'n bosibl. Pe na bai'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yn gallu bod yn bresennol, byddai cadeirydd yn cael ei ethol..

PENDERFYNWYD: Defnyddiodd y Pwyllgor ei awdurdod dirprwyedig ac yn:

1. awdurdodi'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol i gychwyn achosion o dan y Deddfau a grybwyllir uchod.
2. awdurdodi’r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio, y Rheolwr Tîm Trwyddedu (Pen-y-bont ar Ogwr a'r Fro), yr Uwch Swyddog Trwyddedu (Technegol), yr Uwch Swyddog Gorfodi Trwyddedu a'r Swyddog Polisi Trwyddedu i gydnabod a chyhoeddi Hysbysiadau sy'n ymwneud â Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro; i roi, gwrthod, atal trwyddedau, cofrestriadau, tystysgrifau, hawlenni a hysbysiadau, i weithredu'r darpariaethau perthnasol mewn perthynas â throseddau, adolygiadau neu ofynion eraill; yn unol ag unrhyw un o'r rheolau, y rheoliadau a/neu'r Gorchmynion a wnaed o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005 (fel y'i diwygiwyd).
3. cymeradwyo'r trefniadau ar gyfer ffurfio Is-bwyllgorau a nodir ym mharagraff 4.3 o'r adroddiad.

4. MATERION BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:40